## Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon CWLS(2)-08-04(p.2)

**Dyddiad: 30 Mehefin 2004**

**Amser : 9:00am - 12:00pm**

**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2**

### Adroddiad Y Gweinidog Dros Ddiwylliant, Y Gymraeg A Chwaraeon

### 1. Chwaraeon

### 1.1 Byw'n Egnïol

### Y Fenter Nofio am Ddim

Cyfarfu'r Gweithgor Nofio am Ddim ar 21 Mai i gwblhau meini prawf y cynllun ar gyfer plant a phobl ifanc eleni. Byddaf yn gwneud cyhoeddiad ynghylch y cynlluniau cyn bo hir. Ar 19 Gorffennaf, byddaf yn lansio'n swyddogol y cynllun ar gyfer eleni yn y Gogledd. Rwyf hefyd yn bwriadu ymweld â phyllau nofio yng Nghonwy, Bangor, Castell-nedd, Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr rhwng 27 a 29 Gorffennaf i weld sut y mae'r cynlluniau lleol yn mynd rhagddynt.

Yn ystod yr haf, byddwn yn gweithio gyda'r awdurdodau lleol a chyda'n partneriaid eraill i gytuno ar fanylion y cynllun peilot ar gyfer Pobl Hy^n yn yr hydref.

### Taith Feicio Bernardos

Ar 11 Mehefin, bum yn seiclo yng nghwmnitandem Angharad Mair o S4C, ynghyd â llawer o aelodau'r cyhoedd, o Gasnewydd i Ben-y-bont ar Ogwr er mwyn hyrwyddo Taith Feicio Elusen Bernardos fel rhan o weithgareddau’r Wythnos y Beic.

### Rheoliadau Gweithio ar Uchder

Ar 26 Gorffennaf, byddaf yn cyfarfod â Iain Peter, Prif Weithredwr Hyfforddi Mynydda, Canolfan Fynydda Cymru, ym Mlas y Brenin, er mwyn trafod y Rheoliadau Gweithio ar Uchder, a'r effaith y gallent eu cael impact ar y diwydiant hamdden yn yr awyr agoredmountain climbing industry yng Nghymru.

### 2. Iaith Pawb

## Urdd Gobaith Cymru

Ar 17 Mehefin, agorais y Ganolfan Groeso newydd yn swyddogol yn nghanolfan breswyl Urdd Gobaith Cymru, Glan-llyn ger y Bala. Mae gan yr adeilad newydd swyddfeydd, neuadd ddarlithio, sinema a llety ar gyfer mwy nag ugain o ymwelwyr. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi rhoi £275,000 tuag at y datblygiad hwn.

Ar 15 Gorffennaf, byddaf yn ymweld â chanolfan breswyl yr Urdd yn Llangrannog i agor y Ganolfan Hamdden newydd. Bydd gan y Ganolfan Hamdden newydd gae at bob tywydd, cae chwarae, aml-gampfa a champfa.

Mae'r Urdd eisoes yn gwneud gwaith rhagorol o ran rhoi cyfleoedd cymdeithasol i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg a chymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau corfforol. Mae'r Urdd yn cyfrannu at gyflawni nodau Iaith Pawb a Dringo'n Uwch, a bydd y datblygiadau cyffrous hyn yn Llangrannog a Glan-llyn yn darparu mwy o gyfleusterau modern ac yn cynnig mwy o gyfleoedd newydd i blant a phobl ifanc Cymru.

## Swyddfeydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg - Caerfyrddin a Chaernarfon

Byddaf yn agor swyddfeydd rhanbarthol Bwrdd yr Iaith Gymraeg yng Nghaerfyrddin ac yng Nghaernarfon ar 15 a 17 Gorffennaf. Ar hyn o bryd, mae dau aelod o staff yn gweithio yn y swyddfa yng Nghaerfyrddin a bydd y nifer y staff yn cynyddu i bump o ganol fis Gorffennaf ymlaen. Ar hyn o bryd, mae pum aelod o staff yn gweithio yn y swyddfa dros-dro ym Mangor, ond byddant yn symud i'r swyddfa barhaol yng Nghaernarfon. Fel yr eglurais yn y cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor Diwylliant, mae'r staff sy'n gweithio'n y swyddfeydd hyn yn cyflawni amryw o swyddogaethau.

## Iaith Pawb ac Adroddiad Blynyddol y Cynllun Iaith Gymraeg 2003-04

Bydd yr adroddiad blynyddol cyntaf ar Iaith Pawb a Chynllun yr Iaith Gymraeg Llywodraeth y Cynulliad yn cael ei gyhoeddi cyn toriad yr haf. Bydd cyfle i'r Pwyllgor Diwylliant ei drafod yn yr hydref, cyn belled â bod y Cadeirydd wedi'i gymeradwyo.

## Mae Dwyieithrwydd yn Hybu'r Meddwl!

Roedd yn galonogol iawn darllen yr adroddiadau am yr ymchwil a wnaed yng Nghanada yn ddiweddar, sy'n dangos bod manteision gwybyddol i ddwyieithrwydd yn ogystal â manteision diwylliannol. Yn ôl yr ymchwil, mae pobl ddwyieithog yn well o lawer am gadw'u galluoedd meddyliol wrth heneiddio ac maent yn gallu canolbwyntio'n well ar dasgau cymhleth hefyd.

Mae'r adroddiad, "Bilingualism, Ageing and Cognitive control: Evidence from the Simon Task" yn y cyhoeddiad Psychology and Ageing, 2004, Cyfrol 19, Rhif 2 tud. 290-303 .

Rwyf wedi gofyn am sicrhau bod crynodeb o'r adroddiad yn cael ei

ddosbarthu i'r aelodau er mwyn iddynt allu'i ddarllen dros yr haf.

## 3. Materion Diwylliant

### 3.1 Gweld y Gorau

### Gwyl Jazz Aberhonddu

Roedd yn bleser mawr gennyf lansio Gwyl Jazz Ryngwladol Aberhonddu elen yn yr Eglwys Norwyaidd ym Mae Caerdydd ar 23 Mehefin. Mae'r digwyddiad byd-enwog hwn yn bwysig iawn i economi Aberhonddu a hefyd i ddelwedd Cymru. Lansiwyd yr wyl un mlynedd ar hugain yn ôl ac eleni yw ail flwyddyn y cytundeb tair-blynedd a wnaed gan Lywodraeth y Cynulliad drwy gyfrwng Cyngor Celfyddydau Cymru. Mae'r cymorth ariannol sylweddol hwn, gwerth £270,000, yn tystio i ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i'r celfyddydau yng Nghymru. Bydd y pecyn ariannol hwn yn sicrhau bod yr wyl yn parhau i adeiladu ar lwyddiant 2003, lle cafwyd y nifer fwyaf erioed o ymwelwyr, sef hyd at 80,000 o bobl.

### Cronfa Fawr y Loteri

Yn ystod ein cyfarfod ar 9 Mehefin, rhoddais wybod i'r aelodau fod y Gronfa Loteri Fawr wedi'i lansio'n ffurfiol ar 1 Mehefin yn Eisteddfod yr Urdd yn Ynys Môn. Yn ystod y seremoni lansio, cyhoeddodd cynrychiolydd o'r Gronfa Loteri Fawr y byddai'n cynnal nifer o ddigwyddiadau yn ystod yr haf er mwyn ymgynghori â phobl a gofyn eu barn ynghylch rôl a chylch gwaith y Gronfa honno. Cynhelir pedwar cyfarfod i ymgynghori â'r cyhoedd yn y Drenewydd ar 1 Mehefin, yng Nghaerdydd ar 2 Gorffennaf, ynLlandudno ar 5 Gorffennaf ac yn Abertawe ar 6 Gorffennaf.

Yn ogystal, mae'r Gronfa wedi trefnu digwyddiadau i ymgynghori â phob un o'r grwpiau gwleidyddol yn y Cynulliad. Rwy'n deall bod y cyfarfod gyda'r Democratiaid Rhyddfrydol wedi'i gynnal ar 27 Mai, tra y cyfarfu'r Gronfa â'r Ceidwadwyr ar 17 Mehefin. Cynhelir y cyfarfod â'r grwp Llafur ar 29 Mehefin, a bydd y digwyddiad gyda grwp Plaid Cymru yn cael ei gynnal ar 30 Mehefin.

### Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru

Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr eitem i aelodau'r Pwyllgor yn y cyfarfod a gynhelir ar 30 Mehefin.

### Gwyl i Ddathlu Agor Drwm

Rhwng 7-18 Mehefin, cynhaliodd Llyfrgell Genedlaethol Cymru raglen o ddigwyddiadau i ddathlu agor Drwm, sef sinema, neuadd ddarlithio a theatr newydd y Llyfrgell. Awditoriwm newydd yw Drwm, gyda

chant o seddau ynddo, sydd â'r cyfleusterau diweddaraf, sef taflunydd ffilm 16mm a 35mm, cyfarpar gweddarlledu ac acwsteg ardderchog. Dyluniwyd yr awditoriwm gan dîm James Jenkins, Penseiri o Aberystwyth.have designed it with wheelchair users in mind.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi rhoi £1.2 miliwn tuag at gyfanswm y gost o gyllido Profiad yr Ymwelwyr, ac mae £220,000 o'r swm hwnnw wedi'i neilltuo at y gost o ariannu Drwm.

### Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe

Ar 23 Mehefin, cafodd cyflenwad pwer Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe ei droi ymlaen yn swyddogol gan Brif Weinidog Cymru a minnau. Mae hon yn garreg filltir arall yn y broses o godi'r adeilad eiconig hwn, gwerth £30 miliwn. Bydd yr amgueddfa newydd yn adrodd hanes Cymru o safbwynt ei diwydiant a'i gwaith arloesi ers y Chwyldro Diwydiannol. Bydd y drysau'n agor yn haf 2005 a bydd mynediad am ddim iddi - yn unol â safleoedd eraill Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru. Rhagwelir y bydd tua 250,000 o bobl yn ymweld â'r amgueddfa bob blwyddyn.

Mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri wedi rhoi grant gwerth dros £11 miliwn i'r prosiect, sef y grant mwyaf erioed a roddwyd yng Nghymru gan y Gronfa hon. Cafwyd cyfraniadau ariannol sylweddol eraill hefyd gan Awdurdod Datblygu Cymru, Bwrdd Croeso Cymru ac arian Amcan Un yr UE. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi rhoi hyd at £6 miliwn o gymorth ariannol. to cover any short term cash-flow difficulties.

### Yr Amgueddfa Wlân Genedlaethol

Ar 15 Gorffennaf, byddaf yn ailagor yr Amgueddfa Wlân Genedlaethol yn Dre-fach, Felindre yn Sir Gaerfyrddin yn swyddogol. Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru sy'n rhedeg yr Amgueddfa, ac ailagorodd ei drysau i'r cyhoedd ar 31 Mawrth ar ôl gwaith ailddatblygu mawr. Bydd ymwelwyr yn gweld amgueddfa sydd wedi'i thrawsnewid yn llwyr. Bellach, mae'r cyfleusterau i ymwelwyr wedi'u gwella, mae ganddi fynediad i'r anabl, cyfleusterau addysgol penodol ac arddangosfeydd o'r casgliadau sy'n llawn dychymyg.

## 3.2 Amrywiaeth Diwylliannol

### Gweddillion Dynol mewn Casgliadau Amgueddfeydd

Ym mis Rhagfyr, dywedais wrth y Pwyllgor y byddwn yn cyhoeddi dogfen ymgynghori ynghylch Gweddillion Dynol mewn Casgliadau Amgueddfeydd yn y Flwyddyn Newydd. Byddwn yn cynnal ymgynghoriad ar y cyd â'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS).. Mae'r Adran hon wedi gohirio'r dyddiad cyhoeddi, ond disgwyliwn i’r ddogfen gael ei chyhoeddi yn ystod mis Gorffennaf.

## 3.3 Amgylchedd Hanesyddol

## Castell Ynysgynwraidd

Ar 16 Mehefin, ailagorais Gastell Ynysgynwraidd, ynghyd â'r llwybr gerdded ar hyd Afon Mynwy sy'n llifo heibio'r Castell. Cwblhawyd gwaith sylweddol gan Cadw y llynedd i atgyfnerthu'r arglawdd, er mwyn diogelu'r castell rhag cael ei erydu gan yr afon a oedd wedi newid ei chyfeiriad yn ddiweddar. Yn ystod y gwaith cloddio, darganfuwyd glanfa ganoloesol. Er bod hon bellach wedi'i gorchuddio, rhoddwyd cerrig palmant drosti i nodi ôl-troed y lanfa. Mae paneli gwybodaeth newydd wedi'u gosod o gwmpas y safle er mwyn hysbysu'r cyhoedd am y castell a'r olion archaeolegol a ddarganfuwyd.

## 4. Y Cyfryngau

Cyfarfod ag Ofcom

Ar 7 Mehefin, cyfarfu'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a minnau â swyddogion o Ofcom er mwyn trafod amryfal faterion, gan gynnwys darparu radio digidol yng Nghymru, cynnig Llywodraeth y DU i gynnal prawf technegol digidol mewn cymuned yn y De ac adolygiad Ofcom o Ddarlledu Gwasanaethau Cyhoeddus. Trafodwyd presenoldeb Ofcom yng Nghymru hefyd, gan gynnwys gwaith y Pwyllgor Ymgynghori i Gymru, a sefydlu fframwaith ar gyfer meithrin y berthynas rhwng Llywodraeth y Cynulliad ac Ofcom.

5. Ymweliadau a Chyfarfodydd Eraill

- Celfyddydau yn y Gymuned, Rhaeadr Gwy a Chanolfan Celfyddydau Glannau Gwy, Llanfair-ym-Muallt
- Coleg Powys - Aberhonddu
- Cystadleuaeth Ffensio Agored Wrecsam - Canolfan Hamdden Plas Madog
- Taith Feicio'r Ddraig – Taith Feicio 100km o Ben-y-bont ar Ogwr
- Theatr Ieuenctid - Canolfan Fywyd y Pîl
- Gwasanaeth addysg yn yr awyr agored Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Cadwyn o Gameos Cerddorol - Gwyl Cricieth
- Cinio ar gyfer Herr Helmut Rau:German y Gweinidog dros Addysg, Diwylliant a Chwaraeon Bartenvertenburg - Pentyrch
- Y brif araith yn y Gynhadledd ar Gefn Gwlad fel Llwybr i Iechyd Photocall with Prof Vuori from Finland to promote conference on Countryside as a Pathway to Health - SCW
- Cynhyrchiad o Homefront - Theatr Cymunedol Abertileri
- Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr sydd wedi Llwyddo ym myd Chwaraeon - Pen-y-bont ar Ogwr